# LLYTHYR NEWYDDION YR AELOD UNIGOL

## Awst 1986

## Beth yw CND Cymru?

**Y mae C.N.D. yng Nghymru yn fyw ac yn iach, — ac yn bwysicach fyth, y mae ar gynnydd!**

Enillwyd statws cenedlaethol ym 1983, ond yr ydym yn rhan annatod o C.N.D. Prydain o hyd.

Y mae oddeutu 120 o grwpiau drwy'r wlad yn rhan o C.N.D. Cymru, a dros 130 trwy fabwysiad (h.y. undebau llafur, pleidiau gwleidyddol, cynghorau) ar ben hynny.

Gan ein haelodau unigol, tua 4,000 ohonynt ar hyn o bryd, y cawn y rhan helaethaf o'n hincwm.

Y mae gennym weinyddiaeth agored, ddatganoledig a'n Cyngor yn cyfarfod pedair gwaith y flwyddyn yn Rhaeadr Gwy. Caiff unrhyw grwp lleol neu fabwysiedig anfon cynrychiolwyr i'r cyfarfod hwn. Anfonir y cofnodion a'r agenda at bawb. Trafodir ein polisi yn y Cyngor ond yn bwysicach byth, yno y penderfynir sut i weithredu'r cynlluniau hynny.

Y Pwyllgor Gwaith, sy'n cyfarfod bob mis, fydd yn gofalu am redeg C.N.D. Cymru o ddydd i ddydd. Yn y Pwyllgor Gwaith ceir Cadeirydd, pedwar Is-Gadeirydd (a rhaid cael un o ogledd, canolbarth a de Cymru) a Thrysorydd, oll wedi eu hethol. Yn ogystal ceir rhai swyddogion apwyntiedig megis yr Ysgrifennydd Cyffredinol, Ysgrifennydd Aelodaeth, Swyddog y Wasg, a Swyddog Gwerthiant. Nid oes gan yr Ysgrifennydd Cyffredinol bleidlais.

Ar ben hyn mae gennym bum cynrychiolydd, a etholir gan y Cyngor, i gynrychioli rhanbarthau Cymru ar Gyngor Prydeinig C.N.D.

Cyfetholwyd rhai pobl oherwydd eu gallu arbenigol mewn meysydd megis Amddiffyn Sifil a gweithredu.

Wrth redeg mudiad cenedlaethol eang ei apêl rhaid inni fod yn gyson ymwybodol o'r angen am gytbwysedd gwleidyddol, daearyddol a rhywiol. Merched yw mwyafrif swyddogion C.N.D. Cymru, sy'n dangos mor weithgar yw merched yn y mudiad heddwch yng Nghymru. Rydym yn fudiad dwyieithog sy'n golygu bod y llythyr newyddion, ein posteri a'n taflenni oll yn cael eu cyhoeddi yn y ddwy iaith a siaredir yn ein gwlad.

Cynhelir cynhadledd flynyddol a honno sy'n penderfynu polisïau, ethol swyddogion a chynllunio dyfodol C.N.D. Cymru.

Asgwrn cefn C.N.D. Cymru yw'r grwpiau lleol. Pe baent hwy yn wan, byddai'r holl fudiad yn wan. Y gwrthwyneb yw'r gwir, fodd bynnag, fel y gwelwyd yn ystod yr ymateb gwych a gafodd y grwpiau lleol i'r protestiadau a drefnwyd ledled Cymru ar ôl i Libya gael ei bomio. Profodd y protestiadau a welwyd ym Mangor, Aberystwyth a Chaerdydd mor eang yw'r gefnogaeth i C.N.D. Cymru.

Y mae'n cyllideb ar gynnydd o hyd: ychydig dros £13,000 a wariwyd ym 1984, a dros £20,000 heddiw. Gan nad oes gennym na swyddfa na swyddogion cyflogedig gwerir ein harian ar ymgyrchu.

Cynyddu'n gyson a wnaeth ein haelodaeth unigol yn ystod 1986, ond er bod nifer o grwpiau Y.C.N.D. Cymru wedi eu sefydlu, ni welwyd cymaint o grwpiau C.N.D. newydd yn codi eleni. Os tybiwch y gallech ddod â grŵp bach at ei gilydd yn eich ardal chi, byddai un o swyddogion C.N.D. Cymru yn fwy na pharod i ddod atoch i drafod hyn a rhoi pob cymorth posibl. Hwyrach y caech eich siomi o'r ochr orau yn yr ymateb lleol — hwyrach fod pawb yn disgwyl i rywun arall gymryd y cam cyntaf! Hefyd, os ydych yn aelod o grŵp heddwch, undeb llafur, capel, eglwys, plaid boliticaidd neu grŵp arall yn eich ardal, beth am awgrymu ymuno â C.N.D. Cymru am £10.

Ceir manylion pellach am yr uchod a materion eraill gan Bob Cole (Ysgrifennydd Cyffredinol), Bryn Elltyd, Tanygrisiau, Blaenau Ffestiniog, Gwynedd (0766) 831833.

## Peidiwch ag Eistedd ar y Ffens — Torrwch Hi!

**Mae'r YMGYRCH GASEG EIRA, protest drwy weithredu uniongyrchol heddychlon, yn dal i dyfu yng Nghymru. Fe'i hanelwyd yn wreiddiol at wersylloedd milwrol yr Unol Daleithiau ond y mae bellach yn lledaenu i sefydliadau milwrol eraill. Bu Breudraeth, yn Nyfed, a Capenhurst, ychydig y tu draw i Glawdd Offa yn Swydd Caer yn dargedi ill dau, ac ym mis Tachwedd bydd gwersyll Caerwent yng Ngwent yntau yn darged.**

Gofynnir i'r Llywodraeth gydsynio ag UN o dri chais rheseymol, sef:

**1. I'r Deyrnas Unedig ddechrau pleidleisio yn y Cenhedloedd Unedig o blaid cynigion am ddiarfogi niwclear amlochrog, ni waeth pa ffordd y pleidleisia'r Unol Daleithiau.**

**2. Bod y Deyrnas Unedig yn galw'n gyhoeddus am gytundeb cynhwysfawr er atal profion niwclear.**

**3. Bod y Deyrnas Unedig yn cymryd rhyw gam annibynnol (unochrog) tuag at rewi, neu ostwng nifer arfau niwclear drwy roi'r gorau i Trident, anfon Cruise yn ôl neu wrthod yn gyhoeddus fwriad U.D.A. i storio arfau cemegol yma.**

Ar 22 Medi 1985 torrodd tri pherson ddarn unigol o'r weiren yng Ngorsaf Llynges yr U.D. Ym Mreudeth, cyflwynwyd y 'ceisiadau rhesymol' i'r heddlu ac ysgrifennwyd at y Prif Weinidog a gweinidogion eraill. Ni chafwyd yr un ymateb adeiladol. O ganlyniad, danfonwyd un "torrwr" i Garchar Abertawe am 14 diwrnod a gorchymynnwyd atal rhan o enillion un arall.

Ar 18 Ionawr 1986 fe dyfodd y Gaseg Eira — ceisiodd grŵp o naw dorri ffens Breudeth. Ar yr un diwrnod cychwynnodd grŵp o dri phrotestiwr GASEG EIRA yng Ngwaith Cyfoethogi Wraniwm Capenhurst, Swydd Caer.

Wedi'r GASEG EIRA gyntaf ym Mreudeth, pan ymdriniwyd â'r digwyddiad gan yr heddlu sifil yn Hwlffordd, mae heddlu'r Weinyddiaeth Amddiffyn wedi symud i mewn i Orsaf Llynges yr U.D.

Ar 5 Ebrill daeth trydydd cam CASEG EIRA Breudeth, 27 o "dorwyr" a'u cefnogwyr, ynghyd ar draeth Niwgwl. Gyrasant ychydig ffordd o Orsaf Llynges yr U.D. ym Mreudeth a thorri darn unigol o wifren y ffens amgylchynnol. Roedd y "torwyr" yn cynnwys Cadeirydd C.N.D Cymru, yr ysgrifennydd cyffredinol a dau is-gadeirydd. Fe'u harestiwyd a'u dwyn i mewn i'r gwersyll lle buont yn disgwyl ar risiau cwt M.O.D. i gael eu prosesu. Cymerodd hyn ryw deirawr. Yr argraff a gafwyd y diwrnod hwnnw oedd eu bod "hwy" yn chwarae'r peth yn dawel iawn — dygwyd cyhuddiadau yn erbyn pob un o'r 27 a arestiwyd y diwrnod hwnnw ers hynny. Maent wedi bod ymddangos yn llys ynadon Hwlffordd yn ystod mis Gorffennaf a dechrau mis Awst. Cafwyd y rhan fwyaf ohonynt yn euog a chawsant ddirwy o £40. Fodd bynnag, oherwydd i'r erlyniad fethu cyflwyno tystion, gollyngwyd yr achosion yn erbyn pedwar o'r torwyr, yn cynnwys cadeirydd C.N.D. Cymru.

O ganlyniad i'r torri ar 12 Gorffennaf arestiwyd 50 o bobl, yn cynnwys David Morris, A.S. Ewropeaidd Gorllewin Cymru.

Erbyn mis Tachwedd bydd y GASEG EIRA wedi tyfu'n fwy byth, a rhagor o bobl yn ceisio torri'r ffens ym Mreudeth, Capenhurst a Chaerwent.

Os carech ymuno â ni, cysylltwch â Bruce Watkins, Bwyth y Nant, Trap, Llandeilo; neu Bob Cole, 0766 831356.

Os ydych yn cytuno â ni, ond heb fedru torri eich hun, pam nad anfonwch gyfraniad atom **neu** ddod yno i'n cefnogi ar y diwrnod?



*C.N.D. Cymru on the march. The courage of the Carmarthen Bunker protesters got more of us out on the streets than any other anti-nuclear march in Wales.*

*Gorymdaith C.N.D. Cymru. Bu dewrder gwrthdystwyr Byncer Caerfyrddin yn symbyliad i fwy o bobl ddod ar yr orymdaith hon na'r un gwrthdystiad gwrth-niwcliar arall yng Nghymru.*

## 4 Hydref
## Cymru yn erbyn Trident —
### Gwrthdystiad Cenedlaethol C.N.D. Cymru
### Y Bom Brydeinig — Cynnyrch Cymru

Y mae Caerdydd yn ddolen gyswllt hanfodol yng Nghadwyn Niwcliar Prydain ac ar 4 Hydref canolbwyntir sylw ar Ffatri Fomiau Cymru yn R.O.F. Llanisien. Gwneir gwaith ar fomiau niwcliar ar y safle hwn er 1963. Bu'r ffatri hon ar un adeg yn rhan o raglen "gyfrinachol" Chevaline ac y mae bellach yn ymwneud â chynhyrchu darnau ar gyfer Trident.

Dewiswyd 4 Hydref yn benodol ar gyfer cychwyn yr ail ymgyrch hysbysrwydd cyhoeddus yng Nghymru.

**BRASLUN O RAGLEN Y DYDD**

| | |
|---|---|
| 11.00 a.m. | Ymgynnull yn R.O.F. Llanisien |
| 12.00 HANNER DYDD | Yr orymdaith yn gadael R.O.F. |
| ODDEUTU 1.00 | Yr orymdaith yn mynd trwy ogledd Caerdydd at yr ail fan ymgynnull ger Swyddfa Cyngor De Morgannwg, Ffordd Casnewydd. |
| 1.30 APPROX. | 'Marw' yn Stryd y Frenhines. |
| 2.00 - 5.00 p.m. | Rali a Gŵyl yng Ngerddi Soffia. |

Bydd rhaid inni wneud Cymru Ddi-niwcliar yn ffaith. Ym mha ran bynnag o Gymru yr ydych yn byw, dewch i 'farw' yng Nghaerdydd ar 4 Hydref.

O.N. Peidiwch â chael eich gadael ar ôl. Anfonwch eich awgrymiadau am ddiwrnod llwyddiannus at: Gweithgor 4/10, 56 Mackintosh Place, Caerdydd.

Yn brin o syniadau? Gyrrwch arian yn eu lle — i'r un cyfeiriad!

## Ymgyrchu'r Hydref

Etholiad cyffredinol yr haf nesaf? Ymddengys hynny'n fwyfwy tebygol. Ydych chi'n cofio'r un diwethaf? Yr 'Etholiad Niwcliar' lle prin y clywyd llais C.N.D. o gwbl. Ydych chi'n cofio'r iselder a ddilynodd yn sgîl hynny? Rhaid inni gynllunio yn awr ar gyfer y flwyddyn nesaf a braenaru'r tir yn drylwyr, yn y wasg, ar y cyfryngau a gyda'r cyhoedd. Hon yw'r adeg i bwyso ar Aelodau Seneddol a darpar-ymgeiswyr, nid yn y chwe wythnos cyn yr etholiad, ac y mae gan bob aelod o C.N.D. ran i'w chwarae yma, yn enwedig mewn etholaethau ymylol. Ar ôl digwyddiadau'r misoedd diwethaf, mae'r llanw yn mynd o'n plaid; rhaid inni ddal i bwyso.

Bydd gwrthdystiadau a phrotestiadau mewn safleoedd niwcliar yn parhau gydol yr hydref a'r gaeaf, ond er mwyn cyrraedd cynulleidfa newydd o bobl y mae angen eu darbwyllo ynglŷn ag achos C.N.D. Bydd yr ymgyrch hysbysrwydd cyhoeddus yn cefnogi ac yn egluro'r protestiadau drwy gyfleu'r dadleuon mewn cymaint o wahanol ffyrdd ag sy'n bosibl. Rhaid inni barhau i herio'r gred fod y byd yn lle mwy diogel gydag arfau niwcliar. Rhaid inni ddenu'r gynulleidfa newydd hon i'n hochr ni os oes gobaith inni atal y ras arfau.

Un o'r muthau a glywir beunydd am arfau niwcliar gwledydd Prydain yw y byddem yn ddiamddiffyn hebddynt, a bod arnom eu hangen yn y pen draw i amddiffyn ein hannibyniaeth a'n rhyddid. Go brin y trafodir y posibilrwydd o lacio gwirioneddol ar dyndra rhyngwladol pe bai i wledydd Prydain roi'r gorau i arfau niwcliar; ac ni roddwyd ystyriaeth lawn i'r arweiniad y gallai gwledydd Prydain ei roi drwy fabwysiadu polisi tramor nad yw wedi ei seilio ar y bygythiad o hil-laddiad torfol a distrywio'r amgylchedd. Mae polisi niwcliar gwledydd Prydain yn lladd pobl **yn awr;** caiff symiau anferth o arian eu gwastraffu ac mae ofn damweiniau ac argyfwng rhyngwladol yn effeithio'n andwyol ar ansawdd bywyd pawb.

Mewn gair, mae gwledydd Prydain bellach yn rhan o'r broblem, lle gallem fod yn rhan o'r ateb i'r broblem honno. Yn ystod yr hydref bydd C.N.D. Cymru yn dangos ei wrthwynebiad i'r 'Bom Brydeinig' mewn ymgyrch hysbysrwydd cyhoeddus aml-gyfrwng a fydd yn cynnwys gwrthdystiad cenedlaethol ger Ffatri Fomiau Llanisien yng Nghaerdydd ac yn terfynu drwy nodi'r ffyrdd a'r canolfannau, tynnu sylw at y mannau lle y cynhyrchir a lle y cludir arfau niwcliar. Caiff defnyddiau wedi eu dylunio'n broffesiynol i safon uchel eu dosbarthu ar hyd a lled Cymru er mwyn lledaenu'r neges. Bydd grwpiau lleol C.N.D. mewn trefi a phentrefi ledled Cymru yn rhannu taflenni, canfasio, protestio, pwyso a chodi arian ar gyfer hysbysebu a chyhoeddusrwydd. Er gallu gwneud hynny'n llwyddiannus, bydd arnynt angen cymorth pob cefnogwr yn ei gylch — cysylltwch â'ch grŵp lleol (neu C.N.D. Cymru yn y cyfeiriad isod) os gellwch gynnig unrhyw beth, boed fach neu fawr.

**Bob Cole, Bryn Elltyd, Tanygrisiau, Blaenau Ffestiniog, Gwynedd (0766) 831833, neu Morgan Parry (0286) 870892.**

## — Ymaelodwch ag CND Cymru —

Tâl aelodaeth CND: Oedolion £9; dau berson yn rhannu'r un cyfeiriad £12;
Myfyriwr £3; Ieuenctid CND £1 (o dan 21 oed); digyflog £2.

CND membership fees: Adult £9; two persons sharing the same address £12
Students: £3; CND Youth £1 (under 21); unwaged £2

CND CYMRU

Ydw, rwy'n awyddus i ymuno â CND Cymru. Amgaeaf fy nhâl aelodaeth.
Yes, I want to join CND. Please find enclosed my membership fee.


Fy enw My name ..........................................

Fy nghyfeiriad \ My address ..........................................

.......................... Côd Post\Post Code ..........

Dychweler y ffurflen hon i'r Ysgrifennydd Aelodaeth: Return this form to the Secretary:
2 Plasturton Avenue, Pontcanna, Caerdydd CF1 9HH.

## —— Join CND Cymru ——



**Y Bom Brydeinig**
**Cynnyrch Caerdydd**

## Arf Niwcliar yw Ynni Niwcliar — y cysylltiad marwol

Yn ddiamheuol, rhan o'r un fenter yw'r rhaglen ynni niwcliar sifil a'r rhaglen arfau niwcliar. Cydweithredodd y D.U., yr U.D. a Chanada yn ystod yr Ail Ryfel Byd ar Brosiect Manhattan i ddatblygu'r bom atomig. Wedi'r rhyfel penderfynodd Prydain wneud ei harfau niwcliar ei hun a chododd waith cynhyrchu tanwydd niwcliar yn Springfields ger Preston, gwaith cyfoethogi wraniwm yn Capenhurst a gwaith ailbrosesu yn Windscale, Cumbria.

Gyda datblygu llu awyrennau a allai gario bomiau niwcliar dros bellter maith, felly hefyd y tyfodd y galw am blwtoniwm a phenderfynwyd adeiladu wyth adweithydd Magnox. Agorwyd pedwar yn Calder Hall yn Windscale ym 1956 a phedwar yn Chapelcross yn Dumfries ym 1959. Ym 1955 cynlluniwyd pedair gorsaf Magnox arall, gydag un gwahaniaeth pwysig: gellid llwytho tanwydd i'r rhain a hwythau'n dal i redeg, proses sy'n ei gwneud yn llawer haws cynhyrchu plwtoniwm.

Ar ôl eu dwy neu dair blynedd gyntaf, y cyfnod gorau o safbwynt cynhyrchu plwtoniwm, trosglwyddwyd Calder Hall a Chapelcross i'r gwaith o gynhyrchu trydan, ond fe'u defnyddir o hyd at gynhyrchu plwtoniwm graddfa-arfau pan fydd y gyfundrefn amddiffyn yn mynnu hynny. Yn wir, Chapelcross yw unig ffynhonnell gynhenid y D.U. o tritiwm — elfen hanfodol mewn bomiau hydrogen.

Mae'r U.D. a'r D.U. wedi cydweithredu ers y 1950au o dan wahanol gytundebau swyddogol megis y "Cytundeb Cydweithredu ar Ddefnyddiau Plwtoniwm at Ddibenion Amddiffyn Cilyddol". Byddwn **ni'n** danfon plwtonium i'r U.D. o Chapelcross a Calder Hall, ac o adweithyddion y Bwrdd Trydan hefyd, mae'n debyg iawn. Yn dâl am hynny, cawn ganiatâd yr U.D. i brofi arfau niwcliar yn Nevada, a byddant hwy yn danfon wraniwm a thritium wedi ei gyfoethogi i lefel uchel iawn i'w defnyddio yma mewn llongau tanfor ac arfau niwcliar.

Mae'r Bwrdd Cynhyrchu Trydan Canolog a'r Llywodraeth, drwy wadu'r cysylltiad rhwng y rhaglenni niwcliar sifil a milwrol, yn twyllo'r cyhoedd. Nid oes gofyn chwilio ymhellach na thystiolaeth yr Arglwydd Hinton, cyn-gadeirydd y B.C.T.C. y cyfeirid ato fel Tad Ynni Niwcliar. Cyfeiriodd (mewn cyfweliad ar dâp) at honiad y B.C.T.C. nad oedd dim plwtoniwm o orsafoedd pwer wedi mynd at ddibenion y rhaglen arfau fel "blydi celwydd". "Yr wyf yn gwbl sicr bod datganiad y B.C.T.C. yn anghywir . . . Ni wn a ddylid caniatáu iddynt adeiladu Adweithydd Dŵr dan Bwysau (P.W.R.) yn Sizewell ai peidio, ond yr hyn sydd yn bwysig yw na ddylent ddweud blydi celwydd yn eu tystiolaeth." (1983)

'Does bosib nad yw hyn yn brawf terfynol o'r cysylltiad rhwng y rhaglen sifil a'r un filwrol. Mae'n dinoethi 'r dywediad "Atomau dros Heddwch" a ddefnyddiwyd gan Eisenhower ym 1953 a gan y diwydiant niwcliar byth er hynny fel un o'r celwyddau cyhoeddus mwyaf sinigaidd a glywyd erioed.